# CYNLLUN CENEDL: **CYMRU**





# YN DILYN EIN CYNLLUN BUSNES, MAE EIN CYNLLUN CYMRU YN NODI PA WEITHGAREDDAU Y BYDD **CITB YN CANOLBWYNTIO ARNYNT YNG NGHYMRU I GYFLAWNI BLAENORIAETHAU'R SEFYDLIAD DROS Y FLWYDDYN NESAF.**

Mae Cynllun Cymru, fel ein Cynllun Busnes, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thair her allweddol i'r diwydiant:

**1**
Gwella'r llif pobl yn y diwydiant adeiladu

**2**
Cyflenwi hyfforddiant yn effeithlon

**3**
Creu llwybrau hyfforddiant wedi'u diffinio

"Mae adeiladu yn ddiwydiant cyffrous sy'n newid ac yn datblygu'n barhaus. Mae'r cyfleoedd i bobl sy'n ymuno â'r diwydiant yn amrywiol iawn, ac mae pobl sydd eisoes yn y diwydiant yn gallu uwchsgilio ar gyfer heriau a thechnolegau newydd a rhai'r dyfodol. Rwy'n falch o weld CITB yn canolbwyntio ar gefnogi hyfforddiant mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion cyflogwyr yn lleol, ac rwy'n croesawu'r ymrwymiad yng Nghymru i wella ymwybyddiaeth o'r sector i'r genhedlaeth nesaf. Rwyf hefyd yn cael fy nghalonogi gan y gwaith cydweithredol sy'n cael ei wneud yng Nghymru i ddatblygu prentisiaethau adeiladu ar lefel gradd. Mae hyn a mentrau eraill sy'n cael eu harwain gan CITB yn gam i'r cyfeiriad cywir i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu ar hyn o bryd."

Mark Bowen, Rheolwr Gyfarwyddwr,
Andrew Scott Ltd.

Mae rhagor o fanylion am yr heriau hyn ar gael yn ein <u>Cynllun Busnes</u>.

1

# GWELLA'R LLIF POBL YN Y DIWYDIANT ADEILADU







# Dros y flwyddyn nesaf yng Nghymru, byddwn yn darparu:

- Gweld Eich Safle, sy'n rhoi cipolwg ar fywyd ar safle adeiladu i fyfyrwyr. Mae'n helpu pobl ifanc i wneud y dewisiadau gyrfa gorau iddyn nhw ac mae wedi cael ei ehangu i gynnwys y rheini sy'n astudio mewn ysgolion, yn ogystal â cholegau Addysg Bellach.
- Digwyddiadau Menywod mewn Adeiladu yn ystod mis Gorffennaf 2023 i ymgysylltu â myfyrwyr benywaidd ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9. Mae'r digwyddiadau'n gyfle i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fenywod ym maes adeiladu a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau.

## Canlyniad

Bydd digwyddiadau Menywod mewn Adeiladu yn cael eu cynnal yn ne Ddwyrain, de Orllewin a gogledd Cymru, gyda'r nod o gyrraedd **125** o blant ysgol mewn 3 digwyddiad.

Byddwn yn targedu cynnydd o **10%** yn nifer y cyfranogwyr Gweld Eich Safle o ysgolion a cholegau, gan gyrraedd dros 270 o bobl ar draws pob digwyddiad.





# Byddwn yn hwyluso:

- Cymryd rhan yng nghynllun Open Doors Build UK, sy'n cynnig teithiau rhyngweithiol ar safleoedd i'r rheini sydd â diddordeb mewn ymuno â'r diwydiant.
- Digwyddiadau Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau i ddenu, hysbysu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o brentisiaid adeiladu.

## Canlyniad

Parhau â'r **LLWYDDIANT A GAFWYD** gyda digwyddiadau Open Doors blaenorol, yn enwedig cynyddu presenoldeb mewn ysgolion sy'n cyflwyno cyrsiau TGAU neu Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig CBAC.

Cyfres o ddigwyddiadau Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau wedi'u targedu ar gyfer y rheini sydd eisoes yn astudio cymwysterau adeiladu, gyda tharged o gyrraedd dros **800 0 DDYSGWYR.**

- Hyrwyddo rhagoriaeth drwy gystadlaethau sgiliau fel SkillBuild, gan helpu i godi dyheadau a gwella datblygiad sgiliau myfyrwyr adeiladu.
- Partneriaethau cydweithredol rhwng ysgolion, darparwyr addysg bellach a'r diwydiant i wella'r ddarpariaeth o TGAU, UG a Safon Uwch sy'n canolbwyntio ar adeiladu. Byddwn yn annog ymgysylltiad rhyngweithiol ag ysgolion, presenoldeb mewn digwyddiadau gwybodaeth am y diwydiant a chyfleoedd i ymweld â darpariaeth Addysg Bellach.
- Parhau i ddefnyddio adnoddau cymorth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm sydd wedi'u hanelu at fyfyrwyr iau, fel Go Educate a Go Engage, i ennyn diddordeb pobl ifanc yn y sector
- Profiad gwaith a chyfleoedd blasu drwy ein hybiau Onsite Experience. Byddwn yn rhoi profiad ymarferol hanfodol i ddysgwyr amser llawn er mwyn iddynt allu symud ymlaen yn ddidrafferth i brentisiaeth.
- Y nifer sy'n manteisio ar hyfforddeiaethau mewn colegau. Bydd hyfforddeiaethau yn gyfle dysgu newydd gyda sicrwydd i ddysgwyr sydd angen cymorth a gwybodaeth ychwanegol cyn ymuno â'r sector.

## Canlyniad

**200 DDYSGWYR** yn cymryd rhan mewn Hyfforddeiaethau Gwaith Coed ar y Safle, wedi'u cyflwyno gan bedwar darparwr dysgu.

**CYNYDDU NIFER** y Llysgenhadon STEM Am Adeiladu yng Nghymru i 55, trwy ddarparu sesiynau hyfforddi chwarterol ar gyfer Llysgenhadon STEM. Byddwn hefyd yn darparu pedair sesiwn DPP sy'n benodol i Gymru i Lysgenhadon sydd eisoes wedi ymgysylltu a darpar Lysgenhadon.

Datblygu'r Rhwydwaith CSR i **620 AELODAU,** gydag ymrwymiadau chwarterol yn ymdrin â phynciau pwrpasol. Cynnwys adolygiadau blynyddol, gan asesu sut mae'r rhwydwaith yn helpu cyflogwyr i gyrraedd eu targedau gwerth cymdeithasol.

Cynyddu nifer y ceisiadau ar gyfer cystadlaethau sgiliau **10%.**

# Byddwn yn annog:

- Mwy o weithwyr adeiladu i fod yn Llysgenhadon STEM Am Adeiladu. Byddwn hefyd yn annog cynnydd yn nifer y Llysgenhadon STEM sy'n siarad Cymraeg, gan sicrhau bod modd darparu'r ddarpariaeth yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd.
- Ehangu Rhwydwaith Hyrwyddwyr CSR. Fforwm ar gyfer rhannu arferion gorau ledled Cymru, gydag aelodau yn dod ynghyd o gwmnïau adeiladu o bob maint i gydweithio, rhannu arferion gorau ac archwilio ffyrdd arloesol o gyrraedd targedau gwerth cymdeithasol.

# 2

# CYFLENWI HYFFORDDIANT YN EFFEITHLON








# Yng Nghymru, byddwn yn darparu:

- Datrysiad llwyr ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth arbenigol. Mewn ymateb i'r galw gan gyflogwyr, bydd y cynnig prentisiaeth presennol yn cael ei gynnal a'i gefnogi gan y contract arbenigol.
- Dau Gynghorydd Cymorth i Weithwyr Newydd i ddarparu cymorth pwrpasol i gyflogwyr a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Byddant yn helpu cyflogwyr i feithrin dealltwriaeth o'r broses prentisiaeth newydd, yn ogystal â helpu'r prentis i ddod yn gymwys a chyflawni ei gymwysterau.

## Canlyniad

Llwyddo i ddarparu **20** o brentisiaethau arbenigol.

Cefnogi cyflogwyr i gael gwell dealltwriaeth o fframweithiau prentisiaeth **CYMRU.**




## Byddwn yn hwyluso:

- Datblygu darpariaeth mewn meysydd arbenigol, gan weithio'n agos gyda darparwyr addysgol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig ar waith.
- Mwy o ymwybyddiaeth o grantiau, cynhyrchion a chyllid CITB, gan gynnwys Rhwydweithiau Cyflogwyr a Grwpiau Hyfforddi. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cael gafael ar hyfforddiant cost-effeithiol o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer eu hanghenion sgiliau.

## Canlyniad

Cyflwyno darpariaeth **PRENTISIAETHAU** ar gyfer Gwaith Toi, Gwaith Tir a Gosod Lloriau.

Cynyddu nifer y cyflogwyr sy'n cael gafael ar gymorth a hyfforddiant drwy Rwydweithiau Cyflogwyr a Grwpiau Hyfforddi **10%.**

Cyflwyno darpariaeth **SAP DYMCHWEL.**

3

# CREU LLWYBRAU HYFFORDDIANT WEDI'U DIFFINIO

Ein nod ar gyfer y flwyddyn nesaf yw gweithio gyda chyflogwyr fel bod ganddynt y cynnyrch a'r gwasanaethau cywir i allu hyfforddi eu gweithlu, nawr ac yn y dyfodol.





## I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, rhanddeiliaid yn y diwydiant a phrifysgolion i ddatblygu Prentisiaethau Adeiladu ar lefel gradd mewn Peirianneg Sifil, Arolygu a Rheoli Adeiladu.
- Monitro'r broses o roi'r cymhwyster digidol ar waith, gan adolygu ei effeithiolrwydd, ei briodoldeb a mesur yr effaith y mae'n ei gael ar y diwydiant.
- Cynnwys cyflogwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru yn y gwaith o ddatblygu a diwygio safonau hyfforddi, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n dda ymysg gweithgorau ar gyfer fframweithiau cymhwysedd.
- Gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Prentisiaethau Trin Adeiladau Diwydiannol i ddiwallu anghenion sgiliau gwyrdd, sero net a gofynion ôl-osod.

## Canlyniad

**SAFONAU HYFFORDDI NEWYDD**
a diwygiedig sy'n adlewyrchu anghenion newidiol cyflogwyr yng Nghymru.

**CODI YMWYBYDDIAETH**
a gwella dealltwriaeth o'r cymhwyster digidol ymysg y diwydiant.

Mae cyflogwyr yn barod ac wedi paratoi ar gyfer
**LANSIO'R**
Fframwaith Prentisiaethau Trin Adeiladau Diwydiannol.

Bwrw ymlaen â'r gwaith datblygu i sicrhau bod Prentisiaethau Gradd yn barod i'w darparu o fis Medi
**2024 YMLAEN.**



# GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID YNG NGHYMRU

Byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'n partneriaid yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf. Mae angen dull cydweithredol ar yr heriau rydym ni'n bwriadu mynd i'r afael â nhw fel rhan o'n gwaith, fel y bwlch sgiliau, gan ddod ag amrywiaeth o randdeiliaid a llunwyr polisi at ei gilydd i nodi materion nawr ac yn y dyfodol, datblygu datrysiadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd.





# Byddwn yn:

- Gweithio i uwchsgilio staff Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gyda gwybodaeth am y diwydiant i sicrhau bod y diwydiant adeiladu'n cael blaenoriaeth yn eu gwaith.
- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod adeiladu yn sector blaenoriaethol ar gyfer cyllid sgiliau.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, CBAC, City and Guilds ac EAL i sicrhau bod safonau a chymwysterau ar gael i ddiwallu anghenion cyflogwyr yng Nghymru.
- Darparu cyfleoedd i'r diwydiant ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru drwy Fforwm Adeiladu Cymru.

